Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL** | **VOLUNTARY SECTOR LIAISON COMMITTEE** |
| **DYDD GWENER, 16 IONAWR 2015 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **FRIDAY, 16 JANUARY, 2015 at 2:00 p.m.** |
| **CANOLFAN BIWMARES, BIWMARES** | **CANOLFAN BEAUMARIS, BEAUMARIS** |
| | |

**AELODAU / MEMBERS**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Cynghorwyr/Councillors Jim Evans, Kenneth P.Hughes, Alun Mummery
Alwyn Rowlands, Ieuan Williams

**SECTOR GWIRFODDOL / VOLUNTARY SECTOR**

Islwyn Humphreys (Samariaid/Samaritans)
Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn)
Aled Roberts (TARAN)
Eleri Lloyd Jones (Age Cymru)
Ann Jones (Merched y Wawr)

**IECHYD / HEALTH**

Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Datblygu Partneriaeth Cymunedol, BIPBC/Assistant Director of Community Development, BCUHB

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**2** **COFNODION CYFARFOD 2 HYDREF, 2014** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cyswllt a gynhaliwyd ar 2ail Hydref, 2014.

**3** **POLISI YMGYSYLLTU**

Trafod yr uchod.

**4** **CÔD CYLLIDO**

Derbyn diweddariad ynglyn â'r Côd Cyllido.

**5** **CYLLIDEB Y CYNGOR 2015/16**

Ystyried y cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2015/16.

Dogfen Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor :

http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2015/01/05/g/e/v/CynigionCyllideb_201516_Cymraeg.pdf

**6** **Y TRYDYDD SECTOR A'R RHAGLEN RHANBARTHOL**

Prif Swyddog Medrwn Môn i roi trosolwg o raglen y Trydydd Sector ym Môn ac yng nghyd-destun y Rhaglen Rhanbarthol.

**7** **LLEISIAU LLEOL**

Derbyn diweddariad.

**8** **BLAEN RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwyno copi o Flaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith fel a gyflwynwyd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 12 Ionawr, 2015.

**9** **CYFARFOD NESAF**

Penderfynu ar ddyddiad a lleoliad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyswllt.

# Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Alun Mummery (CSYM) (Cadeirydd)<br>Mr Islwyn Humphreys (Samariaid) (Is-Gadeirydd)<br><br>**Awdurdod Lleol**<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Kenneth Hughes, Alwyn Rowlands<br><br>**Sector Gwirfoddol**<br><br>Mrs Dilys Shaw (Medrwn Môn) |
| **WRTH LAW**: | Mr John R. Jones (Prif Swyddog Medrwn Môn)<br>Mrs Gwen Carrington (Cyfarwyddwr Cymuned – CSYM)<br>Mr J. Huw Jones (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd)<br>Lyndsey Campbell-Williams (Swyddog Prosiect, Medrwn Môn)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Mr Wyn Thomas (BIPBC), Eleri Lloyd Jones (Age Cymru), Ann Jones (Merched y Wawr) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Anwen Davies (Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn) (ar gyfer eitem 8). |

---

**1 CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Alun Mummery yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd y Cynghorydd Mummery i'w ragflaenydd yn y Gadair, Mr. Islwyn Humphreys am ei ddoethineb a'i gyfarwyddyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

**2 IS-GADEIRYDDIAETH**

Etholwyd Mr Islwyn Humphreys, Samariaid yn Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol am y flwyddyn i ddod.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb

**4 COFNODION CYFARFOD 19 MAWRTH 2014**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol.

Materion yn codi -

- Cadarnhaodd Prif Swyddog Medrwn Môn ei fod ef a'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro yn awr yn cynnal cyfarfodydd yn fisol i drafod blaenoriaethau'r Cyngor ac er mwyn sefydlu'r lle gorau i ddefnyddio arbenigedd a mewnbwn y sector gwirfoddol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro bod Pwyllgor o Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini a gynhaliwyd ynghynt yr wythnos honno i ystyried ffyrdd o gryfhau'r broses sgriwtini wedi rhoddi ystyriaeth i ffyrdd o weithio'n fwy agos gyda'r sector gwirfoddol a chydranddeiliaid eraill i ganfod beth sydd yn bwysig iddynt hwy. Mae ymgysylltu ymhellach â

chydrandeiliaid ar y gweill er mwyn cael dealltwriaeth o'u pryderon a thrwy hynny gyfoethogi'r proses sgriwtini. Cyfeiriodd Prif Swyddog Medrwn Môn at y cysyniad o gael Panel y Dinesydd.

- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod y Rhaglen Gofal Canolraddol yn mynd rhagddi a bod Swyddogion ac Aelodau yn y cyd-destun hwn yn lobïo dros barhad cyfleon sy'n deillio o'r math hwn o gynllun - gofynnir i'r sector gwirfoddol roi ei lais i'r ymdrechion hynny. Mae gwell setliad ariannol i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn debygol y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi cyfle i hyrwyddo gofal o fewn y gymuned. Y farn yw bod y fenter hon wedi bod yn llwyddiannus a bod y cyllid sy'n ei gefnogi yn gyllid i'r holl bartneriaid sydd â rhan ac y mae wedi dod a manteision i bawb yn ei sgil.
- Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod y Bwrdd Integredig wedi ei sefydlu a'i fod yn weithredol; a bod tri sesiwn datblygu wedi eu cynnal a phedwerydd yn cael ei gynllunio. Byddir yn canolbwyntio ar gyd-leoliad gyda golwg ar rowlio allan raglen cyd-leoliad yn seiliedig ar yr egwyddor o bwy ddylai fynd i ble. Mae rhai elfennau o gyd-leoli eisoes yn ei lle e.e. nyrsys cymunedol yn Llangefni.

## 5 Y COMPACT LLEOL - CÔD ARIANNU

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod ymdrechion wedi eu gwneud i hwyluso llwybr y Compact Lleol drwy'r Cyngor Sir. Cafodd papur briffio ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chanlyniad hynny fu i weithgor gael ei sefydlu i edrych ar drefniadau ariannol gyda golwg ar roi yn eu lle drefniadau corfforaethol i nodi partneriaethau, cytundebau a chyfraniadau ariannol i gynnwys yr ystod cyfan o grantiau i drydydd partïon. Mae cwestiynau i'w gofyn ynglŷn â natur y gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn dymuno i'r sector eu darparu; ymhle yn y gymuned y mae angen i'r isadeiledd a'r gefnogaeth gael ei atgyfnerthu a chomisiynu a darparu gwasanaethau o ran pwy yw'r darparwr gorau. Tra bod ymdrechion hefyd wedi eu gwneud i nodi cyfleon ar gyfer gwirfoddoli, awgrymir mai'r cyntaf ddylai fod y ffrwd waith blaenoriaethol ar hyn o bryd. Rhaid pwysleisio nad oes unrhyw faterion mewn perthynas â derbyn egwyddorion y Compact a bod y drafodaeth ynglŷn â threfniadau llywodraethu oherwydd eu bod yn ymwneud â phartneriaethau'r Cyngor.

Rhai pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth -

- Yr angen i gwblhau trefniadau o amgylch y Compact a'r Côd Ariannu er mwyn iddynt gael eu sefydlu'n derfynol.
- Byddai'n weithred o ewyllys da i'r Côd Ariannu gael ei dderbyn gan mai côd corfforaethol ydyw sy'n ffurfioli trefniadau cyllido'r awdurdod gyda'r sector gwirfoddol drwy'r Adran Gymunedol.
- Bod y gwaith mewn perthynas â mireinio anghenion o ran comisiynu a darparu, a gyda gwerthuso buddsoddiadau yn y sector gwirfoddol yn rhoi cyfle ar gyfer amlygu beth sydd gan y sector i'w gynnig. O ystyried angen y sector am sicrwydd a sefydlogrwydd o ran cynllunio i'r dyfodol, mae'r gwaith o amgylch egluro'r gofynion o ran mewnbwn y sector a ffurfio strategaeth ar y cyd gyda'r sector yn bwysig.

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI: Y Cyfarwyddwr Cymuned i wneud datganiad ynglŷn â'r sefyllfa yn y cyfarfod nesaf.**

## 6 Y CYNLLUN CORFFORAETHOL 2013-17

Cytunwyd i ystyried eitem 9 ar y rhaglen – Y Cynllun Corfforaethol a'r Ymgysylltiad/Ymgynghoriad Cymunedol yn y cyd-destun hwn.

Cafwyd adroddiad gan Lyndsey Campbell-Williams, Swyddog Prosiect ar gynnig i ffurfioli arferion ymgysylltu ac ymgynghori'r Awdurdod ar draws ffrydiau gwaith oedd yn gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol trwy weithio mewn partneriaeth ffurfiol â lleisiau cymunedol sydd yn brosiect y sector gwirfoddol yn delio â 9 o'r cymunedau mwyaf anodd i ymgysylltu â hwy ym Môn a beth fyddai'n dilyn o ran ymarfer yn nhermau egwyddorion cyfarwyddo, trefniadau llywodraethu a deilliannau targed. Cylchredwyd copi o gynllun Mapio Asedau Adeiladu Cymunedau Seiriol.

Rhai pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth –

- Cadarnhad o ba mor gynhyrchiol a fu'r model yn ymarferol mewn gosodiadau lleol hyd yn hyn.
- Y gallai wasanaethu fel templed corfforaethol ar gyfer ymgynghori/ymgysylltu gyda'r Cyngor gyda hynny'n golygu y gallai holl wasanaethau'r Cyngor ac nid y rhai o fewn yr Adran Gymuned yn unig fabwysiadu'r model arfaethedig i bwrpasau ymgynghori ac ymgysylltu.

Os gellir dangos ei fod yn gweithio'n effeithiol o fewn y Cyngor yna fe all gael ei addasu a'i ymestyn o fewn iechyd a gwasanaethau eraill.

- Y gall gael ei ddatblygu i ffurfio rhwydwaith a thrwy hynny ei gwneud yn bosibl i ymgynghori ar nifer o faterion ar yr un pryd.

**Cytunwyd i nodi'r cynnig a'i gefnogi.**

## 7 CYLLIDEB 2015/16 A'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLOG

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Dros Dro fel oedd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2014. Roedd yr adroddiad yn rhoi cefndir a gwybodaeth gyd-destunol i ddarparu cyllideb y Cyngor am 2015/16 ac yn nodi'r nodweddion allweddol o fewn y proses ddarparu.

Y prif bwynt a godwyd yn y drafodaeth a ddilynodd oedd yr angen i Medrwn Môn fel yr asiantaeth ymbarél ar gyfer cyrff gwirfoddol lleol a gyda rhai ohonynt yn dibynnu ar gyllid grant awdurdod lleol i gael gwybod ar y cyfle cyntaf am fwriadau cyllido'r awdurdod am 2015/16 fel y gallent wneud eu cynlluniau, ac er mwyn pontio unrhyw fylchau all ddod i'r amlwg o ganlyniad i ostyngiad mewn cyllid. Nodwyd y bydd gweithdy ar y gyllideb i Aelodau Etholedig yn cael ei gynnal ar 3 Hydref ac y byddai'n darparu cyfle priodol i amlygu'r mater o ystyried y disgwyliadau cynyddol sydd ar y sector gwirfoddol o ran ei fewnbwn a'i ran gyda darparu gwasanaethau wrth i'r Cyngor geisio rheoli cyllideb sy'n lleihau.

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI: Y Deilyddion Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a Pherfformiad Corfforaethol i amlygu i'r Gweithdy ar y Gyllideb i'w gynnal ar 3 Hydref, y pwysigrwydd o roi i Medrwn Môn fel y corff cefnogol ar gyfer sefydliadau gwirfoddol lleol wybodaeth amserol am y gyllideb fel rhan integrol o'r broses o gynllunio'r gyllideb.**

## 8 BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad gan Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn yn nodi'r camau cychwynnol yn siwrnai trawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Partneriaethau adroddiad ar y siwrnai drawsnewid gychwynnol mewn tair cam ar y broses o ffurfio'r blaenoriaethau.

Y prif bwyntiau a godwyd yn y drafodaeth a ddilynodd oedd ffurfio trefniadau sgriwtini cadarn ac effeithiol i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r dulliau lle gallai'r sector gwirfoddol gael mewnbwn i'r broses. Pwysleisiwyd y gellir ystyried y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fel grym er daioni a fforwm sy'n edrych i gydlynu a darparu gwell canlyniadau ar y cyd, mae angen iddo allu dangos ei fod yn darparu gwerth ychwanegol ac nad yw'n haen ychwanegol o fiwrocratiaeth.

**Cytunwyd i nodi'r cynnydd hyd yn hyn ac yn benodol mewn perthynas â thrawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn ar y cyd.**

## 9 DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ar y sefyllfa o safbwynt y disgwyliadau oedd yn codi o'r ddeddf uchod a'r materion oedd o gwmpas darparu'r rhaglen waith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac i Ynys Môn.

Nododd y Pwyllgor y corff o waith aruthrol y mae gweithredu'r rhaglen waith yn ei olygu a'i oblygiadau pell gyrhaeddol o safbwynt sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei fusnes a'r effaith ddilynol a gaiff ar ei bartneriaid. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymuned y byddai'n gwerthfawrogi pe gallai'r sector gwirfoddol ddarparu gwybodaeth iddi ynglŷn â lle y mae'n gweld bod ei gryfderau a'i wendidau yn y cyd-destun hwn. Awgrymwyd - o ystyried ei effaith ar sut y mae'r Cyngor yn bwriadu darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, y dylid cael cyflwyniad i godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol o fewn y Cyngor ynglŷn â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol gyda gwybodaeth ynglŷn â'r manylion o amgylch gweithredu i'w rhannu mewn cyfarfodydd dilynol.

## 10 POLISI GWIRFODDOLI

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cymuned bod Polisi Gwirfoddoli wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor a bod hyfforddiant i reolwyr wedi ei gynnal yn ystod misoedd yr haf i'w dilyn gan archwiliad o waith

trefniadau sydd angen ei ailddechrau. Roedd y safbwynt wedi ei gymryd y dylai adolygiad o'r trefniadau ariannol gael blaenoriaeth ac y gellir edrych ar agweddau o wirfoddoli lle y mae wedi ei nodi a bod angen gwirioneddol i wneud hynny. Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i gymryd y camau hyn.

**11 PAPUR GWYN AR DDIWYGIO LLYWODRAETH LEOL**

Cafwyd adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd yn dweud bod y Cyngor Sir wedi ystyried ei opsiynau mewn perthynas â'r Papur Gwyn mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi ac wedi cadarnhau yn ffurfiol ei safiad i beidio ag uno'n wirfoddol â Chyngor Gwynedd. Roedd y Cyngor hefyd wedi penderfynu ceisio cael trafodaethau pellach gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cadarnhaodd Prif Swyddog Medrwn Môn y byddai, fel sefydliad, yn ystyried y Papur Gwyn ond ei bod yn bwysig iddynt gefnogi sefyllfa'r Cyngor ar hyn o bryd.

**12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd er gwybodaeth Flaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Hydref 2014 i Mai 2015. Cadarnhaodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol bod trafodaeth reolaidd yn digwydd gyda Phrif Swyddog Medrwn Môn ar gynnwys y Rhaglen Waith fel bod y sector gwirfoddol yn cael ei hysbysu o'r sefyllfa ddiweddaraf.

**13 CYFARFOD NESAF**

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 2pm ar 16 Ionawr 2015 yn y Ganolfan Biwmares.

**Y Cynghorydd Alun Mummery**

**Cadeirydd**

DRAFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **12 Ionawr 2015** |
| **Pwnc:** | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Ieuan Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror - Medi 2015;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Bydd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn llywio rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

| **F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **FF - Atodiadau:** |
|---|
| Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2015. |

| **G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Blaenraglenni gwaith blaenorol. |

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015



Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion Portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Amlinellir blaenraglen waith ddrafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Chwefror - Medi 2015** ar y tudalennau dilynol.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Mae'n bosib y bydd rhai o'r eitemau a restrir yn y rhaglen waith yn cael eu dirprwyo i'w cymeradwyo gan ddeilyddion portffolio unigol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 1 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 9 Chwefror 2015 | |
| 2 | **Adroddiad Cynnydd ar y Polisi Tai Dewisol 2014/15 a mabwysiadu newidiadau am 2015/16 ac i'r dyfodol**<br><br>Categori**: Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright<br>Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | 9 Chwefror 2015 | |
| 3 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Apeliadau**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth - Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 9 Chwefror 2015 | 26 Chwefror 2015 |
| 4 | **Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth - Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 9 Chwefror 2015 | 26 Chwefror 2015 |
| 5 | **Ymestyn cyfnod y Pwyllgor Safonau**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Dirprwy Brif Weithredwr | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth - Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 9 Chwefror 2015 | 26 Chwefror 2015 |

Tudalen 9

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | **Rhent Tai 2015/16**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyo cynnydd blynyddol | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 9 Chwefror 2015 | |
| 7 | **Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Shan Lloyd Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 9 Chwefror 2015 | |
| 8 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Rhosyr**<br><br>Categori: **Strategol** | Cytuno'r ffordd ymlaen yn dilyn yr ymgynghoriad anffurfiol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 9 Chwefror 2015 | |
| | | | | | | | |
| 9 | **Cyllideb 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Mabwysiadu'r cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright<br>Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | Sgriwtini:<br>10 Chwefror 2015<br>Gwasanaethau Democrataidd:<br>29 Ionawr 15 | 16 Chwefror 2015 | 26 Chwefror 2015 |
| 10 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2104/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy<br>Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | 10 Chwefror 2015 | 16 Chwefror 2015 | |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch3**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | 10 Chwefror 2015 | 16 Chwefror 2015 | |
| 12 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Chwefror 2015 | |
| 13 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2015/16**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Chwefror 2015 | |
| 14 | **Ffioedd Wythnosol ar gyfer Gofal preswyl a gofal nyrsio mewn cartrefi gofal annibynnol yn ystod 2015/16**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Chwefror 2015 | |
| 15 | **Graddfeydd Talu am wasanaethau Gofal Cartref annibynnol yn ystod 2015/16**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyaeth. | Cymuned | Alwyn Jones Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Chwefror 2015 | |

Tudalen 11

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH
Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 16 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Mawrth 2015 | |
| 17 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar gyfer ei gyhoeddi. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwas. Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Mawrth 2015 | |
| 18 | **Rhyddhad Newydd rhag y Dreth Fusnes i Elusennau a Sefydliadau nad ydynt yn gwneud Elw**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyo polisi newydd. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright<br>Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | | 16 Mawrth 2015 | |
| 19 | **Polisi Gosod Cyffredin**<br><br>Categori: **Strategol** | Mabwysiadu Polisi Gosod Cyffredin newydd | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Mawrth 2015 | |
| 20 | **Rhaglen Gyfalaf Tai Sector Cyhoeddus 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | 'Mofyn cymeradwyaeth. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 16 Mawrth 2015 | |

Tudalen 12

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 21 | **Adolygiad Gwasanaeth Llyfrgelloedd**<br><br>Categori: **Strategol** | Opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth at y dyfodol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Mawrth 2015 | |
| 22 | **Adolygiad Gwasanaeth Diwylliant**<br><br>Categori: **Strategol** | Opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth at y dyfodol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Mawrth 2015 | |
| 23 | **Gwasanaeth Ieuenctid**<br><br>Categori: **Strategol** | Opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth ieuenctid at y dyfodol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Mawrth 2015 | |
| 24 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal y Llannau**<br><br>Categori: **Strategol** | Cytuno achos busnes amlinellol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 16 Mawrth 2015 | |
| | | | | | | | |
| 25 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 20 Ebrill 2015 | |
| 26 | **Dogfen Gyflawni Blynyddol (Cynllun Gwella) 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | 20 Ebrill 2015 | 7 Mai 2015 |

Tudalen 13

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

# BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 27 | **Llawr y Dref – opsiynau ar gyfer y dyfodol**<br><br>Categori: **Gweithredol a Strategol** | Cymeradwyaeth i'r cyfeiriad strategol cyn ymgynghori gyda thenantiaid. | Cymuned | Shan L Williams<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | 20 Ebrill 2015 | |
| 28 | **Brecwast am Ddim mewn Ysgolion**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Costau ynghlwm â newid y polisi. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 20 Ebrill 2015 | |
| 29 | **Gostwng Oed Mynediad Ysgol Llanfairpwll ac Ysgol Goronwy Owen**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cytuno i ostwng oed mynediad yr ysgolion yma. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | 20 Ebrill 2015 | |
| | | | | | | | |
| 30 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy<br>Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Mai 2015 | |
| 31 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2014/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy<br>Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | I'w drefnu | Mai 2015 | |

**  Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

## BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch4**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | I'w drefnu | Mai 2015 | |
| | | | | | | | |
| 33 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Mehefin 2015 | |
| 34 | **Moderneiddio Ysgolion – Ardal Rhosyr**<br><br>Categori: **Strategol** | Cytuno'r ffordd ymlaen yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Mehefin 2015 | |
| 35 | **Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant**<br><br>Categori: **Gweithredol** | Cymeradwyo'r adroddiad a chynllun 2015. | Dysgu Gydol Oes | Dr Gwynne Jones Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Mehefin 2015 | |
| | | | | | | | |
| 36 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Gorffennaf 2015 | |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Chwefror – Medi 2015

Diweddarwyd: 5 Ionawr 2015

| | Y pwnc a'i gategori * (Strategol / Gweithredol / Er gwybodaeth) | Pam y gofynnir am y penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith | Adran Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Dyddiad i Sgriwtini | Dyddiad y Pwyllgor Gwaith | Dyddiad y Cyngor Llawn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 37 | **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br><br>Categori: **Strategol** | Diweddaru'r rhaglen waith. | Dirprwy Brif Weithredwr | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro<br><br>Cyng Ieuan Williams | | Medi 2015 | |
| 38 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2014/15**<br><br>Categori: **Strategol** | Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | | Medi 2015 | Medi 2015 |
| 39 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2015/16**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Bethan Jones<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alwyn Rowlands | I'w drefnu. | Medi 2015 | |
| 40 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2014/15 – Ch3**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Dirprwy Brif Weithredwr | Richard Micklewright<br>Pennaeth Swyddogaeth dros dro – Adnoddau<br><br>Cyng Hywel Eifion Jones | I'w drefnu. | Medi 2015 | |
| 41 | **Trefniadau Diogelu Oedolion Bregus**<br><br>Categori: **Strategol** | Adroddiad cynnydd. | Cymuned | Alwyn Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Kenneth P Hughes | | Medi 2015 | |



** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*